Hospices Cymru
Hosbisau Cymru
The Voice of Voluntary Hospices in Wales
Llais yr Hosbisau Gwirfoddol yng Nghymru

# Cofnodion

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Cyfarfod:** | Grŵp trawsbleidiol ar hosbisau/gofal lliniarol | **Lleoliad:** | Hosbis Tŷ'r Eos, Wrecsam |
| **Dyddiad ac amser:** | 17 Hydref 2014<br>1-2:30pm | **Trefnydd:** | Stephen McCauley<br>s.mccauley@hospiceuk.org |

**Present**
Ian Bellingham, Hosbis Sant Kentigern
Janette Bourne, Gofal Galar Cruse Cymru
Stephen Clark, Hospice UK
Carol Davies, BASW Cymru
Dr Jenny Duguid, Hosbis Tŷ'r Eos
Dr Harry Edwards, Hosbis yn y Cartref
Fiona Fletcher, My Name is Not Cancer
Alison Foster, Aelod cyswllt Macmillan
Kath Fox, Fforwm Cleifion Rhwydwaith Canser Gogledd Cymru
Andy Goldsmith, Hosbis Tŷ Gobaith
Eluned Griffiths, Hosbis Tŷ'r Eos
Gladys Harrison, Hosbis Dewi Sant
Mark Isherwood AM (Cadeirydd)
Angela Jones, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Trefor Jones, Hosbis Sant Kentigern
Kath Jones, Hosbis Tŷ Gobaith
Yvonne Lush, Macmillan
Hazel Meredith, Fforwm Cleifion Rhwydwaith Canser Gogledd Cymru
Stephen McCauley, Hospice UK (Cofnodion)
Lynn Parry, Hosbis yn y Cartref
Trystan Pritchard, Hosbis Dewi Sant
Aled Roberts AC
Antoinette Sandbach AC
John Savage, Hosbis Tŷ'r Eos
Caroline Siddall, Hosbis Tŷ'r Eos
Dr Caroline Usborne, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Natasha Wynne, Gofal Canser Marie Curie

**Ymddiheuriadau**
Mohammed Asghar AC
Sandra Dade, Sefydliad Paul Sartori
Janet Finch-Saunders AC
Y Farwnes Finlay
Mike Hedges AC
Simon Jones, Gofal Canser Marie Curie
Dr Matthew Makin, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Cathrin Manning, Y Groes Goch Brydeinig
David Melding AC
Robyn Miles, GSK
Robin Moulster, BASW

Unapproved draft

Margaret Pritchard, Gofal Hosbis George Thomas
Andrew Richards, Hosbis y Cymoedd
Jayne Saunders, Tŷ Hafan
Emma Saysell, Sefydliad Dewi Sant
Simon Thomas AC
Sophie Thomas, Sefydliad Paul Sartori
Allison Williams, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf

| Eitem | Crynodeb | Cam i'w gymryd |
|---|---|---|
| **H&PC/1** | **Croeso, cofnodion y cyfarfod diwethaf a materion yn codi**<br>Croesawodd Mark Isherwood bawb i'r cyfarfod – y cyntaf i'w gynnal y tu allan i Gaerdydd. | |
| | Cymeradwywyd y cofnodion diwethaf a nodwyd bod llythyrau wedi'u cyfnewid â'r Gweinidog yn ymwneud â'r cynllun cyflenwi gofal diwedd oes, a'r cyllid ar ei gyfer, wedi i'r mater gael ei godi yn y cyfarfod diwethaf. | |
| **H&PC/2** | **Dogfen yn ymdrin â dyfodol gofal lliniarol yng Ngogledd Cymru ac ymateb Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr**<br>Cyflwynodd Ian Bellingham dogfen drafod Grŵp Cyswllt Hosbisau Gogledd Cymru, sef 'Dyfodol Gofal Lliniarol yng Ngogledd Cymru' a chafwyd sylwadau arni gan Caroline Usborne o Betsi Cadwaladr ar ran y bwrdd iechyd hwnnw. | |
| | Mae'r hosbisau am weld gwahanol ddarparwyr yng ngogledd Cymru yn cydweithredu mewn partneriaethau, ac yn gobeithio cael tair canolfan ragoriaeth yng Nghymru i ddarparu gofal lliniarol i'r rhai sydd wedi dod i ddiwedd eu hoes. | |
| | Soniodd Caroline Usborne am y ffaith bod y byrddau'n canolbwyntio ar wasanaethau yn y gymuned a cheisio atal pobl rhag gorfod mynd i'r ysbyty. Cadarnhaodd y bydd dogfen derfynol Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ar strwythurau cyflenwi'n cael ei chyhoeddi ganol mis Tachwedd. | Ysgrifenyddiaeth |
| | **Cam i'w gymryd:** Awgrymodd Mark Isherwood y dylid ysgrifennu at y Gweinidog i hyrwyddo'r ddogfen hon ac i gael barn y llywodraeth amdani. Cytunodd y grŵp â hyn. | |
| **H&PC/3** | **Cyllid statudol i hosbisau**<br>Cyflwynodd John Savage adroddiad ar sefyllfa ariannu hosbisau gan nodi bod cyllid gan y byrddau iechyd wedi'i rewi ers 2010. Mae'r adroddiad yn dangos bod hosbisau i oedolion wedi cael £1 miliwn yn llai o gyllid dros y pum mlynedd diwethaf ac mae'n galw ar Lywodraeth Cymru i roi cyfarwyddyd i'r holl fyrddau iechyd i gynyddu'r cyllid i lefel sydd o leiaf yn cyd-fynd â chwyddiant. | |
| | Yna, cafwyd trafodaeth grŵp am gyllid statudol. Dywedodd Caroline Usborne nad oedd y byrddau iechyd yn sicr beth roedd Llywodraeth Cymru yn ei olygu wrth ddweud ei bod am 'glustnodi' cyllid ar gyfer gofal lliniarol arbenigol o fis Ebrill 2015 ymlaen. | |
| | Holodd Aled Roberts ynghylch yr estyniad a roddwyd i gynllun ariannol tair blynedd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Dywedodd Caroline Usborne nad oedd y manylion wedi'u cadarnhau eto. | Ysgrifenyddiaeth |
| | **Cam i'w gymryd:** Cytunwyd y byddai'r grŵp yn ysgrifennu at y Gweinidog i holi | |

Unapproved draft

am fanylion y penderfyniad i glustnodi arian canolog datganoledig i'r byrddau iechyd lleol.

**H&PC/4 Gwella data am brofiadau cleifion**

Soniodd Natasha Wynne am adroddiad Marie Curie ar wella profiadau cleifion yng Nghymru. Rhoddodd y cyd-destun – mae 31,000 yn marw yng Nghymru bob blwyddyn ac mae angen gofal lliniarol ar 75% (23,000) ohonynt. Nid oes modd ateb y galw ar hyn o bryd ac mae adborth pwysig ar goll, yn enwedig gan gleifion nad ydynt yn dioddef o ganser.

Cyfeiriodd Natasha Wynne at y problemau gyda'r prosesau presennol – ychydig o ymateb a geir ac mae agweddau allweddol a nodweddion cleifion ar goll.

Ymhlith mesurau eraill, mae'r adroddiad yn argymell y dylid cyflwyno arolwg blynyddol o alar yng Nghymru, tebyg i VOICES.

Yna cafwyd trafodaeth fer ar yr adroddiad a'r argymhellion. Dadleuodd Trystan Pritchard fod angen data dibynadwy ac nad yw'r sefyllfa bresennol yn caniatáu inni laesu dwylo.

Mae nifer yr ymatebion yn amrywio bob mis ar hyn o bryd, rhwng 1 ac 20 ymateb, a dim ond ciplun yn unig y gall arolwg iWantGreatCare ei gynnig. Dywedodd Natasha Wynne fod y data yng Nghymru yn anghyson a bod gwybodaeth am dueddiadau a gwahaniaethau rhanbarthol o ran gofal ar goll.

**H&PC/5 Unrhyw fater arall**

- Cynhadledd fideo - gofynnodd Mark Isherwood a fyddai'r bwrdd lleol yn fodlon cymryd rhan mewn cyfarfodydd yn y dyfodol drwy ymddangos drwy gyfrwng cyswllt fideo. Dywedodd Caroline Usborne y byddai'n fodlon gwneud hynny.
- Gofal trosiannol – mater sy'n dod yn gynyddol bwysig. Dywedodd Kath Jones y caiff adroddiad 'Pontio'r Bwlch' ei gyhoeddi'r wythnos nesaf.
- Awdurdodau lleol - gofynnodd Aled Roberts a oedd awdurdodau lleol yn ymgysylltu â hosbisau a'r byrddau iechyd. Cyfeiriodd Caroline Usborne at wahanol weithgorau sy'n cael adborth. Rhoddodd Ian Bellingham enghraifft o gynghorydd lleol sy'n bresennol yng nghyfarfodydd bwrdd Hosbis Sant Kentigern.

Unapproved draft